

# CADWGAN (bu farw 1241), esgob Bangor

**Enw:** Cadwgan  
**Dyddiad marw:** 1241  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob Bangor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** John Edward Lloyd

Cafodd Cadwgan ei esgobaeth pan fu farw Robert yn 1212. Y pryd hwn yr oedd [Llywelyn ap Iorwerth](#) yn ben llywodraethwr ar Ogledd Cymru; trwy ei ddylanwad ef, y mae'n ddiamau, y cafodd Cadwgan yr esgobaeth. Ac ni bu i'r brenin John ychwaith, a oedd ar y pryd yn ceisio cael cymorth y Cymry yn erbyn ei farwniaid, roddi unrhyw ruwstr ar ei ffordd. Ar 13 Mawrth caniatâdwyd i'r cabidwl ethol abad y Tŷ-gwyn-ar-Daf, ar yr amod eu bod yn ceisio cydsyniad y brenin yn ffurfiol yn nes ymlaen. Ar 13 Ebrill rhoes John hysbysrwydd am yr etholiad i'r archesgob Langton a gofyn iddo gysegru. Ar ôl i Gadwgan wneuthur y broffes arferedig o ufudd-dod ar 28 Ebrill cydsyniodd yr archesgob a chymerth y gwasanaeth cysegru le yn Staines, 21 Mehefin.

Ni wybuasid ddim am ddechreuad yr esgob newydd oni bai am y darlun a dynnwyd ohono gan [Gerallt Gymro](#) yn ei *Speculum Ecclesiae* - darlun nad oes dim yn eisiau ynddo ond yr enw. Fe'i tynnwyd gyda rhyfgyr diofn a dylid bod yn ofalus iawn rhag ei dderbyn yn ei grynsyth. Serch hynny, gellir dywedyd a chredu bod Cadwgan yn fab i offeiriad o Wyddel a mam a oedd yn Gymraes, iddo dderbyn addysg glerigol dda, a dyfod yn fynach yn urdd y Sistersiaid. Daeth yn ben ar abaty Ystrad Fflur ac heb fod yn hir iawn wedi hynny yn bennaeth y Tŷ-gwyn-ar-Daf, mam-gartref tai Sistersaidd Cymru bron i gyd. Oherwydd iddo wasanaethu [Llywelyn](#) yn ddiwyd a diflino fe'i cafodd ei hun yn esgob o'r diwedd. Y mae popeth a wyddys am Gadwgan o ffynonellau eraill llai gwenwynig yn fwy ffariol iddo. Yn y flwyddyn 1234, ar adeg prinder bwyd yng Ngogledd Cymru, trefnwyd i ddwyn lloaid llong o dŷ o Iwerddon er mwyn ei bobl. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, gyda chaniatâd y pab Grigor IX, ymddiswyddodd o'r esgobaeth a dychwelyd i fyw bywyd mynach syml yn abaty Dore, lle bu farw 11 Ebrill 1241. Y mae peth tystiolaeth ei fod yn ror ddysg ac yn awdur; priodolir llyfr homiliau iddo.

## Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

## Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 688-9

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cadwgan of Llandyfai](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [172256273](#)

Wikidata: [Q5016647](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

